


# Cynllun y Cyngor

2021-23

TASG SYNIADAU GWAITH TÎM LLWYDDIANT CYSWLLT  
**CYFLAWNIAD** YMDDIRIEDAETH  
CYSWLLT STRATEGAETH SYNIADAU BUSNES  
YMDDIRIEDAETH STRATEGAETH EFFEITHIOL  
POBL RHEOLAETH GRŴP  
RHEOLAETH GWAITH CYMUNED GYDA'N GILYDD  
GRŴP GWAITH TÎM BUSNES  
LLWYDDIANT GWAITH  
BUSNES TASG POBL  
SYNIADAU STRATEGAETH  
YMDDIRIEDAETH  
TASG  
LLWYDDIANT  
CYSWLLT  
GWAITH TÎM  
EFFEITHIOL  
GRŴP  
RHEOLAETH  
SYNIADAU  
GRŴP  
TASG





cynnwys

# Cynnwys

Croeso i Gynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2021/22 .....	05	Blaenoriaeth: Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy .....	30
Gosod ein Blaenoriaethau a Beirniadu ein Perfformiad .....	06	Blaenoriaeth: Economi Gylchol .....	31
Blaenoriaethau Canol Blwyddyn 2022/22 .....	08	<b>Thema: Yr Economi</b>	
Dilyn y Cynllun - Canllaw Cyflym .....	10	Blaenoriaeth: Adfywio Canol Trefi.....	32
Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu .....	11	Blaenoriaeth: Busnes.....	33
Gweithgareddau Rheoleiddio/Archwilio Eraill .....	12	Blaenoriaeth: Isadeiledd Cludiant a Digidol .....	34
Sut mae Ymgynghori yn llywio ein Cynllun .....	12	Blaenoriaeth: Targedau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).....	35
Sut rydym yn mesur cyflawniad' o Gynllun y Cyngor.....	13	Blaenoriaeth: Gwario arian er budd Sir y Fflint .....	36
<b>Thema: Tlodi</b>		Blaenoriaeth: Lleihau Diweithdra .....	37
Blaenoriaeth: Tlodi Incwm .....	15	<b>Thema: Lles Personol a Chymunedol</b>	
Blaenoriaeth: Tlodi Plant .....	16	Blaenoriaeth: Byw'n Annibynnol .....	38
Blaenoriaeth: Tlodi Bwyd.....	17	Blaenoriaeth: Diogelu .....	39
Blaenoriaeth: Tlodi Tanwydd .....	18	Blaenoriaeth: Darpariaeth Uniongyrchol i Gefnogi Pobl yn	
Blaenoriaeth: Tlodi Digidol.....	19	Agosach at Adref.....	40
<b>Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch</b>		Blaenoriaeth: Strategaeth Dementia Lleol .....	41
Blaenoriaeth: Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd.....	20	Blaenoriaeth: Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda	
Blaenoriaeth: Anghenion Tai a Dewisiadau Tai.....	21	Chysylltiadau Da.....	42
Blaenoriaeth: Tai cymdeithasol.....	22	<b>Thema: Addysg a Sgiliau</b>	
Blaenoriaeth: Sector Rhentu Preifat .....	24	Blaenoriaeth: Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol .....	44
Blaenoriaeth: Eiddo Gwag .....	25	Blaenoriaeth: Cyfleoedd Dysgu Digidol .....	45
<b>Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd</b>		Blaenoriaeth: Amgylcheddau Dysgu.....	46
Blaenoriaeth: Carbon Niwtral.....	26	Blaenoriaeth: Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu.....	47
Blaenoriaeth: Strategaeth Fflyd .....	27	Blaenoriaeth: Darpariaeth Addysgol Arbenigol.....	48
Blaenoriaeth: Amgylchedd Gwyrdd .....	28	Blaenoriaeth: Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg .....	49
Blaenoriaeth: Ynni Adnewyddadwy .....	29	Datganiad o Gyfrifoldeb.....	51



croeso

# Croeso i Gynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2021/22



**Colin Everett**  
Prif Weithredwr

Mae fersiwn diweddaraf Cynllun y Cyngor yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r pethau mawr rydym yn bwriadu eu cyflawni. Mae Sir y Fflint yn ymfalchio mewn bod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ar ran ei gymunedau lleol, ac un sy'n cael ei arwain a'i gymell gan set o werthoedd cymdeithasol cadarn.

Mae Sir y Fflint yn gyngor blaengar sy'n cael ei lywodraethu'n dda. Rydym yn parhau i gyflawni'n dda fel darparwr unionyrchol a chomisiynydd gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal ag fel partner i eraill.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heb ei ail. Er gwaethaf yr holl ymyrraeth a achoswyd gan y pandemig, nid ydym wedi petruso i gynnal ein perfformiad uchel ac i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwella cymunedau Sir y Fflint.

O fewn y Cynllun eleni, mae pwyslais mawr ar adfer o'r pandemig a chefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymiadau mawr i fod yn Gyngor Gwyrdd. Mae bywyd yn ystod y pandemig wedi dysgu ni y dylem werthfawrogi'r amgylchedd naturiol ac y gall addasiadau yn ein ffyrdd o fyw leihau ein ôl troed carbon ein hunain.

Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor o dan chwe thema:-

- Tlodi
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd
- Yr Economi
- Lles Personol a Chymunedol
- Addysg a Sgiliau


Mae gan bob thema amcanion a chamau gweithredu penodol lle rydym yn ceisio cael effaith eleni ac yn yr hirdymor.



**Ian Roberts**  
Arweinydd y  
Cyngor

# Gosod ein Blaenoriaethau a Beirniadu ein Perfformiad

Y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol sy'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir. Rydym yn cydweithio fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ac yn cyfuno ein hadnoddau er budd Sir y Fflint.

Dangosir y blaenoriaethau o fewn y flwyddyn gyda symbol  i ddynodi'r rhai rydym yn eu rhannu gyda'n partneriaid. Mae'r rhain wedi eu dewis i gael sylw arbennig fel rhan o'n Cynllun Lles, lle rydym yn credu y gall ac y bydd ymdrech gryf gan ein partneriaid yn gweithio ar y cyd i wneud gwahaniaeth mawr i gymunedau Sir y Fflint. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer PSB Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn:

- Diogelwch Cymunedol
- Byw'n lach ac yn Annibynnol

Dyma rai o'n partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Coleg Cambria, Prifysgol Glyndwr, Llywodraeth Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned Lleol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod nifer o flaenoriaethau ei hun fel sefydliad partner unigol. Mae gosod blaenoriaethau'n ein helpu i ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar y pethau pwysicaf – adleisir y blaenoriaethau hyn yng Nghynlluniau Busnes y Cyngor. Mae gofyniad cyfreithiol arnom i osod blaenoriaethau a elwir yn Amcanion Gwella (dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009). Rydym yn galw'r rhain yn Flaenoriaethau'r Cyngor.

Wrth osod Blaenoriaethau'r Cyngor, mae'n rhaid i ni ystyried nifer o ffactorau o bolisi Llywodraeth Cymru, i ddisgwyliadau ein partneriaid allweddol, i'n cyfrifoldebau cyfreithiol, i farn pobl leol.

Yna, byddwn yn gosod ein targedau, ac yn beirniadu ein perfformiad yn eu herbyn gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth feintiol (perfformiad a feirniadir yn ôl niferoedd) ac ansoddol (perfformiad a feirniadir yn ôl adborth, canlyniadau'r ymgynghoriad ac ati). Mae rhai o'n hamcanion yn ymwneud â chreu cynlluniau er mwyn cyflawni amcanion tymor hirach. Bydd rhain yn cael eu datblygu o fewn y flwyddyn, ac yn cael eu hystyried fel rhan o raglenni gwaith i'r dyfodol ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac yn arwain ynddynt eu hunain at ymrwymadau a gweithredoedd tymor hirach.

I'n helpu i wybod pa mor dda rydym yn gwneud o ran cwrdd â disgwyliadau ein blaenoriaethau, mae gennym gyfres o 'fesurau' sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gennym. Amlinellir y mesuryddion perfformiad hyn ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn fesul tudalen. Manylwyd yn llawnach arnynt yn y ddogfen ategol 'Cynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad'. Disgrifir pob un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn yn unigol ar y tudalennau canlynol. Rydym yn darparu gwybodaeth yngl n â:

- Ein Hamcanion Lles - Effaith / canlyniad hirdymor – pa wahaniaeth y bydd yn gwneud
- Pam fod y blaenoriaeth yn bwysig yn 2021/22
- Y materion polisi cenedlaethol sy'n effeithio ar ddarpariaeth
- Beth fyddwn ni'n ei wneud
- Sut byddwn ni'n mesur cyflawniad?
- Beth yw ystyr rhywfaint o'r iaith rydym yn ei ddefnyddio

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa mor dda rydym wedi gwneud yn erbyn ein canlyniadau mewn dwy ffordd: adroddiadau rheolaidd i Gabinet a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor; a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir ar gyfer 2020/21 (a ddylai gael ei gyhoeddi ym mis Hydref).

# Blaenoriaethau Canol Blwyddyn 2022/22

Thema / Amcan Lles	Blaenoriaeth yn ystod y Flwyddyn	Rhif tudalen
<b>Tlodi</b> Diogelu pobl rhag tlosti trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol	• Tlodi Incwm	15
	• Tlodi Plant	16
	• Tlodi Bwyd	17
	• Tlodi Tanwydd	18
	• Tlodi Digidol	19
	<b>Tai Fforddiadwy a Hygyrch</b> Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr a chefnogi cymunedau mwy diogel	• Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd
• Anghenion Tai a Dewisiadau Tai		21
• Tai Cymdeithasol		22
• Sector Rhentu Preifat		24
• Eiddo Gwag		25
<b>Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd</b> Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hól-troed carbon eu hunain		• Carbon Niwtral
	• Strategaeth Fflyd	27
	• Amgylchedd Gwyrdd	28
	• Ynni Adnewyddadwy	29
	• Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy	30
	• Economi Gylchol	31
<b>Yr Economi</b> Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy	• Adfywio Canol Trefi	32
	• Busnes	33
	• Isadeiledd Cludiant a Digidol	34
	• Targedau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	35
	• Gwario arian er budd Sir y Fflint	36
	• Lleihau Diweithdra	37



# Blaenoriaethau Canol Blwyddyn 2022/22

Thema / Amcan Lles	Blaenoriaeth yn ystod y Flwyddyn	Rhif tudalen
<b>Lles Personol a Chymunedol</b> Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal â gallent	• Byw'n Annibynnol	38
	• Diogelu	39
	• Darpariaeth Uniongyrchol i Gefnogi Pobl yn Agosach at Adref	40
	• Strategaeth Dementia Lleol	41
	• Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda Chysylltiadau Da	42
<b>Addysg a Sgiliau</b> Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu	• Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol	44
	• Cyfleoedd Dysgu Digidol	45
	• Amgylcheddau Dysgu	46
	• Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu	47
	• Darpariaeth Addysgol Arbenigol	48
	• Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg	49

# Dilyn y Cynllun - Canllaw Cyflym

Mae'r dudalen flaenorol yn amlinellu chwe thema'r Cyngor a'r blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn yn 2021/22.

Amlinellir pob thema sefydlog gyda gwahanol liw. Er enghraifft, mae **Addysg a Sgiliau** yn **las** ac mae'r **Economi** yn **biws**. Dylai'r codio lliw wneud y blaenoriaethau yn haws i'w dilyn ac wrth i'r darllenwr fynd drwy'r ddogfen ac hefyd croesgyfeirio i Gynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad.

Mae'r Cyngor wedi dethol nifer o flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn i gael sylw arbennig yn 2021/22. Yna mae adran benodol yn ddiweddarach yn y ddogfen i bob un o'r blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn a ddewisir.

Er enghraifft, ar dudalen 8 byddwch yn gweld y thema ar gyfer Tlodi. Diffinnir amcan lles ar gyfer Tlodi fel 'Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol'. Mae'r meysydd sy'n cyfrannu tuag at gyflawni hyn o fewn y pum blaenoriaeth canlynol:-

- Tlodi Incwm
- Tlodi Plant
- Tlodi Bwyd
- Tlodi Tanwydd
- Tlodi Digidol

Mae'r rhesymau dros eu dethol yn cael eu hegluro yn dilyn bob blaenoriaeth ynghyd ag unrhyw faterion polisi cenedlaethol ac eglurhad o'r 'hyn yr ydym yn ei olygu gyda'.

## **Beth sydd wedi newid ar gyfer 2021/22?**

Seiliwyd Cynllun y Cyngor ar chwe thema a fanylir ymhellach arnynt fel blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlyniadau a'r effeithiau hirdymor yn cyd-fynd â'n Hamcanion Lles a osodwyd i gwrdd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion Lles yn ein hunanasesiad.

Yn ogystal, byddwn yn ystyried y pum dull gweithio, a elwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy, a byddwn yn adrodd arnynt.

Disgrifir canlyniadau ac effeithiau hirdymor ar gyfer gweddill oes y Cyngor hyd at yr etholiadau lleol llawn nesaf, ymhen blwyddyn.

Caiff cynnwys y Cynllun ei adolygu a'i newid unwaith y flwyddyn.

# Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Fel sefydliad cyhoeddus mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n rheolaidd i archwilio a herio ei berfformiad a'i effeithiolrwydd. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n bennaf gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Derbyniodd y Cyngor Gynodeb Archwilio Blynyddol cadarnhaol gan **Archwilio Cymru** ym Medi 2020. Y sylwadau cyffredinol oedd *"Tystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio gwelliannau ac adrodd a chredir ei bod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21."*

**Yr archwiliad mwyaf diweddar gan Estyn** ar wasanaethau addysg y Cyngor oedd ym Mehefin 2019. Roedd yr adroddiad cadarnhaol, sydd ar gael ar wefan Estyn, yn nodi bod disgyblion yn Sir y Fflint, yn gyffredinol, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser mewn addysg statudol.

Mae gan **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**, raglen barhaus o ymgysylltiad a gweithgarwch arolygu ar draws Cymru. Yn Sir y Fflint, mae hyn wedi cynnwys llythyr blynyddol cadarnhaol gan AGC, sy'n adlewyrchu ein perfformiad cryf trwy gydol 2019/20. Mae canfyddiadau'r llythyr hwn wedi'u tynnu o weithgareddau amrywiol trwy gydol y flwyddyn, ac yn nodi cryfderau ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn unol â phedwar egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r cryfderau yn cynnwys:

- arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu a gefnogir yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir
- defnydd o'r Gymraeg i adeiladu perthnasau cadarnhaol gyda theuluoedd
- ymrwymiad i gyd-gynhyrchu gwasanaethau mewn partneriaeth â phobl, busnesau ac elusennau
- canolbwynt cryf ar gymorth cynnar i gefnogi cadernid a rhwystro problemau teuluoedd rhag gwaethygu
- ymgysylltiad gweithredol mewn gweithio mewn partneriaeth leol a rhanbarthol
- ein harloesedd wrth gefnogi ansawdd gofal yn y farchnad gartref, recriwtio gweithwyr gofal a buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu staff gofal



# Gweithgareddau Rheoleiddio/Archwilio Eraill

Mae'r Cyngor yn paratoi crynodeb blynyddol o holl weithgareddau rheoleiddio ac archwilio allanol. Cafodd y diwethaf ei gynhyrchu ym Mawrth 2021 ac fe'i ystyriwyd gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o holl astudiaethau lleol a chenedlaethol ynghyd ag ymateb y Cyngor.

## Sut mae Ymgynghori yn llywio ein Cynllun

Roedd y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer Cynllun y Cyngor, o'r dechrau, yn seiliedig ar ystod eang o ymgynghoriadau blaenorol mewn meysydd gwasanaeth gyda grwpiau partner a chynrychiolwyr (e.e. diogelwch cymunedol, gwrthdodi, addysg, datblygu economaidd) ac, mewn rhai achosion, defnyddwyr gwasanaeth yn uniongyrchol e.e. tai.

Nid oes un ymarfer ymgynghori dwys ar y Cynllun ei hun, trwy ddewis lleol, o ystyried ei gefndir. Mae aelodau etholedig, ar ran y cymunedau maent yn eu cynrychioli, wedi cyfrannu tuag at osod blaenoriaethau'r Cyngor ac wedi tynnu ar eu rôl cynrychioli i brofi perthnasedd y Cynllun yn erbyn barn gyhoeddus lleol. Mae hyn wedi cael ei hwyluso trwy rannu'r Cynllun drafft gyda holl aelodau etholedig a thrwy ei gyflwyno mewn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal â hynny, ymgynghorwyd ag aelodau etholedig ar dargedau a cherrig milltir i'w defnyddio er mwyn mesur cyflawniad y Cynllun, gan sicrhau bod digon o gynnydd ac uchelgais.


Mae ymgynghoriad ar holl rannau o'r Cynllun gyda budd-ddeiliaid yn barhaus. Mae'r Cyngor yn parhau i groesawu adborth ar y cynllun, ac i'w addasu ar unrhyw adeg.

# Rhan 1 a 'Rhan 2: Sut rydym yn mesur cyflawniad' o Gynllun y Cyngor

Mae'r ddwy ddogfen yn gysylltiedig â'r ddogfen 'mesur cyflawniad' sy'n rhoi mwy o fanylion am berfformiad targed a cherrig milltir rydym wedi gosod ar gyfer ein hunain.



ein blaenoriaethau



# Thema: Tlodi

Amcanion Lles: Diogelu pobl rhag tloidi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol

## Blaenoriaeth Tlodi Incwm

### Diffiniad

Pobl ar incwm isel sydd methu bodloni costau byw dydd i ddydd

Bydd cyflawniad yn cael ei fesur trwy:

- Deuluoedd sy'n cael eu cefnogi i fod yn gadarn yn ariannol trwy:
  - a) Cynyddu'r nifer o bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at gymorth i hwyluso newid ymddygiadol hirdymor – erbyn Medi 2021
  - b) Sicrhau bod y rhai sy'n derbyn hawliau budd-daliadau cynyddu mewn modd amserol trwy brosesu hawliadau yn effeithlon – erbyn Mawrth 2022
  - c) Cynyddu cofrestrriad i'r cynllun Taliadau Dewisol Tai a chymorth ariannol arall – erbyn Mawrth 2022
  - d) Parhau i gynnis canolbwynt cymunedol (Canolfannau Cyswllt) trwy roi mynediad at ystod o raglenni, gwasanaethau ac asiantaethau mewn un lle – erbyn Mawrth 2022

Dyma'r blaenoriaethau eleni gan ein bod ni angen:

- Lleihau risg ac effeithiau tloidi ymysg aelwydydd yn Sir y Fflint
- Cefnogi preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau cynnal

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Diwygiad Lles 2016
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cadernid Ariannol** - Adnoddau digonol i fodloni gofynion teuluol
- **Tlodi Incwm** - Pan mae adnoddau yn llai nac isafswm eich anghenion

# Thema: Tlodi



## Blaenoriaeth Tlodi Plant

### Diffiniad

Plant sy'n methu cael gafael ar fwyd, dillad, lloches nac addysg ddigonol er mwyn byw bywyd iach ac egnïol

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Mae'r gost o anfon plant i'r ysgol wedi'i leihau trwy:
  - a) Gwneud y prosesau i hawlio prydu ysgol am ddim mor hawdd â phosibl er mwyn cynyddu'r canran sy'n cofrestru yn erbyn hawliad – erbyn Rhagfyr 2021
  - b) Annog cofrestriad o'r brecwast ysgol am ddim ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 sy'n gymwys am brydu ysgol am ddim – erbyn Medi 2021
  - c) Cynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer y grant gwisg ysgol erbyn Mehefin 2021
- Caiff mynediad am ddim at lyfrau, rhwydweithiau TGCh, dyfeisiau a gwasanaethau llyfrgell ei gynnal trwy:
  - a) Gynnal rhwydwaith o saith llyfrgell mewn partneriaeth ag Aura – erbyn Mawrth 2022
  - b) Cynyddu defnydd o adnoddau ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc – erbyn Mawrth 2022
- Bydd gan blant fynediad at gyfleoedd chwarae trwy:
  - a) Sicrhau bod gan blant fynediad at brosiectau gwaith chwarae mynediad agored mewn cymunedau lleol – erbyn Mawrth 2022
  - b) Sicrhau bod gan blant fynediad at ardaloedd chwarae awyr agored wedi'u cynnal yn dda, sy'n cynnig amgylchedd chwarae amrywiol a chyfoethog – erbyn Mawrth 2022

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod y rhai sy'n gymwys yn cael mynediad at gynlluniau cymorth
- Cynyddu mynediad at, a sgiliau o ran gwasanaethau digidol
- Sicrhau mynediad parhaus i amgylcheddau chwarae amrywiol a chyfoethog

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru
- Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tlodi Plant** - cyflwr hirdymor o beidio cael digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gymerir yn ganiataol gan eraill yn eu cymdeithas



# Thema: Tlodi



## Blaenoriaeth

### Tlodi Bwyd

### Diffiniad

Pobl sy'n methu cael gafael ar fwyd sy'n bodloni eu hanghenion a'u gofynion maethol dyddiol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Mae gan bawb yn Sir y Fflint fynediad at fwyd ffres, da a fforddiadwy trwy:
  - a) Ddatblygu gwasanaeth “Well Fed yn y Cartref” – erbyn Mawrth 2022
  - b) Datblygu a darparu gwasanaeth prydau “Adre o'r Ysbyty” – erbyn Mawrth 2022
  - c) Cyflwyno gwasanaeth cludo a danfon bwyd “Prydau Symudol” i'r rhai diamddiffyn – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol ar gyfer tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd
- Sicrhau ein bod yn cyrraedd cymunedau gwledig a threfol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tlodi bwyd** - Pobl sy'n methu cael gafael ar fwyd sy'n bodloni eu hanghenion a'u gofynion maethol dyddiol

# Thema: Tlodi

## Blaenoriaeth Tlodi Tanwydd

### Diffiniad

Aelwydydd sydd â chostau tanwydd uwch na'r cyfartaledd, ac mae talu'r costau hynny yn achosi iddym nhw fynd i dlodi

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Leihau'r risg o dlodi tanwydd ar gyfer preswylwyr trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi – erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â Thai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cefnogi ac atgyfeirio aelwydydd diamddiffyn i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles – erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Lleihau effaith y cynnydd mewn costau tanwydd
- Cefnogi'r rhaglen genedlaethol ar gyfer ymestyn y rhwydwaith nwy drwy brif gyflenwad
- Lleihau effaith tlodi tanwydd ar yr aelwydydd mwyaf diamddiffyn

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cynllun Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tlodi Tanwydd** - Aelwydydd sydd angen talu mwy na 10% o'u hincwm aelwyd llawn i gynnal arferion gwresogi boddhaol
- **Aelwydydd Diamddiffyn** - Aelwydydd lle mae'r deiliaid yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:
  - Unigolyn dros 60 [5] a drosodd,
  - plentyn dibynnol neu blant o dan 16 oed,
  - Unigolyn sengl o dan 25 oed,
  - Unigolyn sy'n byw gyda salwch hirdymor neu sy'n anabl.

# Thema: Tlodi



## Blaenoriaeth Tlodi Digidol

### Diffiniad

Cyfngiadau ar fynediad hawdd i'r byd digidol yn sgil costau, sgiliau a hyder, neu rwydwaith

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gefnogi a galluogi mynediad at y rhyngwyd a dyfeisiau er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu diarddel o'r byd digidol trwy:
  - a) Gefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol briodol trwy'r Cynllun Cefnogwyr Digidol - erbyn Mawrth 2022
  - b) Darparu mynediad cyhoeddus am ddim i'r rhyngwyd mewn Canolfannau Cyswllt a gwasanaethau llyfrgell Aura - erbyn Mawrth 2022
  - c) Cynyddu benthyciadau o ddyfeisiau trwy Gynllun Mynediad Digidol Aura – erbyn Mawrth 2022
  - d) Cynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer cyfleoedd dysgu digidol a gefnogir gan Aura – erbyn Hydref 2021
- Cefnogi pobl i gael mynediad at wybodaeth ddigidol trwy:
  - a) Ddarparu mynediad at wasanaethau'r cyngor ar y rhyngwyd mewn modd ymatebol (gellir cael mynediad at wybodaeth gan ddefnyddio dyfeisiau gwahanol) – erbyn Rhagfyr 2021
  - b) Hybu mentrau i helpu pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol -erbyn Rhagfyr 2021
  - c) Cynyddu mynediad at wybodaeth ar-lein i gefnogi pobl i gynnal eu sgiliau digidol – erbyn Rhagfyr 2021
  - d) Hyrwyddo ystod o hyfforddiant digidol a datblygu sgiliau a ddarperir gan Goleg Cambria – erbyn Rhagfyr 2021

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddiwallu disgwyliadau cwsmeriaid i allu cael mynediad at wasanaethau ar-lein
- Moderneiddio yn ymarferol trwy newid y ffordd rydym yn dylunio a darparu gwasanaethau
- Sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn bersonol neu dros y ffôn
- Cefnogi pobl sydd â diffyg sgiliau a hyder mewn cymdeithas fodern

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol er mwyn cefnogi moderneiddio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Mynediad Digidol** - Y gallu i gwsmeriaid ddefnyddio offer a thechnolegau megis y rhyngwyd a chyfrifiaduron wrth gysylltu â'r Cyngor
- **Cefnogwyr Digidol** - gweithwyr hyfforddedig a phartneriaid y trydydd sector sy'n cynorthwyo cwsmeriaid i ddefnyddio offer a thechnolegau er mwyn defnyddio gwasanaethau digidol

# Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch

Amcan Lles: Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr a chefnogi cymunedau mwy diogel



## Blaenoriaeth

Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd

## Diffiniad

Yn cynnig cymorth i bobl i gadw eu tai, byw yn dda ac atal digartrefedd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gomisiynu ystod eang o gymorth mewn perthynas â thai, sy'n bodloni anghenion bobl Sir y Fflint – erbyn Mawrth 2022
- Hyrwyddo gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd gyda'n preswylwyr a phartneriaid – erbyn Mawrth 2022
- Sicrhau dull partneriaeth aml-asiantaeth i atal digartrefedd a datblygu diwylliant lle mae digartrefedd yn “fusnes i bawb” – erbyn Mawrth 2022
- Pan fo digartrefedd yn digwydd, sicrhau ei fod yn rhywbeth prin, byr ac na fydd yn digwydd eto – Mawrth 2022
- Datblygu ac ymestyn dulliau Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Brys ar gyfer y rhai sy'n rofi digartrefedd - erbyn Mawrth 2022
- Ailfodelu'r cynnig a gwasanaeth llety Canolfan Digartrefedd “gwelyau brys” – erbyn Mawrth 2022
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu canolfan digartrefedd a gwasanaethau cefnogi pobl ifanc – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Atal digartrefedd yn ei holl ffurfiau trwy ymyrraeth gynnar a chymorth tai
- Ymateb i anghenion tai newidiol pobl Sir y Fflint ar ôl pandemig Covid

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Trawsnewid gwasanaethau digartrefedd
- Darparu Polisi Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.
- Ymateb i argymhellion Grŵp Gweithredu Digartrefedd

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Ymyrraeth Gynnar** – bwriad ymyrraeth gynnar yw nodi a mynd i'r afael â phroblem neu gyflwr yn gynnar. Wrth feddwl am ddigartrefedd, mae hyn fel arfer yn golygu strategaethau sy'n targedu pobl sy'n amlwg mewn perygl o, neu sydd wedi dod yn ddigartref yn ddiweddar.
- **Tai yn Gyntaf** – mae 'Tai yn Gyntaf' yn ddull sy'n canolbwyntio ar adfer er mwyn dod a digartrefedd i ben drwy symud pobl sy'n profi digartrefedd i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol os oes angen.
- **Ailgartrefu Brys** – mae ailgartrefu brys yn ddull ar gyfer pobl sydd â'r angen i gael mynediad at dai; a'r rheswm pennaf eu bod yn ddigartref yw diffyg tai

# Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch



## Blaenoriaeth

Anghenion Tai a Dewisiadau Tai

### Diffiniad

Anghenion o ran Tai a Dewisiadau Tai – Galluogi pobl i archwilio eu dewisiadau tai er mwyn gallu cael gafael ar y tai priodol i fodloni eu hanghenion

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Hyrwyddo Un Llwybr Mynediad at Dai, y gofrestr Tai Cyffredin, y Gofrestr Tai Fforddiadwy a Chymorth Tai o fewn y gymuned a gyda gweithwyr proffesiynol – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu dulliau hunanwasanaeth sy'n galluogi pobl i ganfod eu dewisiadau tai eu hunain trwy gymorth ar-lein - erbyn Mawrth 2022
- Peilota proses asesu risg i ganfod anghenion cymorth cyn tenantiaeth er mwyn lleihau'r risg o fethiant tenantiaeth – erbyn Mawrth 2022
- Adolygu ein stoc tai gwarchod er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion tenantiaid posibl – erbyn Medi 2021

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddiwallu anghenion tai a llety amrywiol y boblogaeth leol
- Canfod anghenion cymorth pobl a'u helpu i gynnal llety a lleihau'r risg o ddigartrefedd trwy ystod o wasanaethau cymorth

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Dod a throi allan i ddigartrefedd i ben
- Strategaethau Pobl Hŷn

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Y Gofrestr Tai Fforddiadwy** – Yn casglu anghenion tai ac yn dyrannu tai fforddiadwy ar wahân i dai cymdeithasol e.e. cartrefi sy'n llai na gwerth ar y farchnad un ai ar gyfer rhentu neu brynu
- **Y Gofrestr Tai Cyffredin** – Mecanwaith a ddefnyddir gan Sir y Fflint i gipio anghenion tai a dyrannu tai cymdeithasol ar draws holl bartneriaid tai
- **Porth Cymorth Tai** – Un pwynt mynediad ar gyfer anghenion cymorth tai a phorth i wasanaethau cymorth
- **Tai Gwarchod** – Mae tai gwarchod yn dai ar gyfer pobl h n sy'n eu galluogi nhw i fyw yn annibynnol mewn cartref sy'n hawdd i'w reoli, gan eu gadael yn rhydd i fwynhau bywyd gyda'r heddwch meddwl bod cymorth wrth law pan fyddent ei angen

# Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch



## Blaenoriaeth Tai cymdeithasol

### Diffiniad

Gweithio gyda phartneriaid tai i ddatblygu a buddsoddi mewn tai fforddiadwy, gyda dulliau adeiladu modern ac ymrwymiad i fod yn garbon niwtral

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Weithio gyda phartneriaid cymdeithas tai i adeiladu tai cymdeithasol newydd ac eiddo fforddiadwy ychwanegol – erbyn Medi 2021
- Cynyddu portffolio tai'r Cyngor trwy adeiladu tai cymdeithasol ac eiddo fforddiadwy ar gyfer Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru - erbyn Medi 2021
- Sicrhau bod stoc dai'r Cyngor yn diwallu Safonau Ansawdd Tai Cymru ac yn cyflawni'r isafswm sgôr effeithlonrwydd ynni SAP o 65 – erbyn Rhagfyr 2021 [Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd](#)
- Datblygu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio cartrefi'r Cyngor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o'u heffeithlonrwydd thermol a bod y gost o wresogi cartrefi yn cael ei leihau – erbyn Mawrth 2022
- Gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau bod ein cymunedau yn cael eu rheoli'n dda, yn llefydd diogel a chynaliadwy i fyw - erbyn Mawrth 2022 [Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd](#), [Cyswllt â Thlodi](#)
- Cefnogi ein tenantiaid i gael mynediad at dechnoleg a chreu cymunedau digidol cynaliadwy – erbyn Rhagfyr 2021 [Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd](#)
- Gwrando ar ein tenantiaid a gweithio gyda nhw i wella ein gwasanaethau, cartrefi a chymunedau – erbyn Mawrth 2022 [Cyswllt â Thlodi](#)

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Adeiladu'r nifer mwyaf posib o dai Cyngor fel rhan o'r datrysiad cyflenwad tai
- Adeiladu'r nifer uchaf posib o dai Cyngor i gefnogi a chyfrannu at gyflenwad tai cyffredinol Sir y Fflint
- Diwallu targed Llywodraeth Cymru bod yr holl dai cymdeithasol wedi'u codi i Safon Ansawdd Tai Cymru

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Adeiladu cartrefi cymdeithasol gwell yng Nghymru, mwy ohonynt ac yn fwy cyflym (Ail-ddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru, Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020)
- I Gymru ddod yn genedl garbon isel trwy gael targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon yng Nghymru o 80% erbyn 2050 (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)

## Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tai Fforddiadwy** – Tai ar gyfer rhent, prynu neu gynlluniau ecwiti a rennir, sy'n parhau i fod ar gael o dan brisiau'r farchnad am oes, ar gyfer y sectorau yn y gymuned sydd methu fforddio tai ar y farchnad agored
- **Di-Garbon Net** – Mae allyriadau nwyon t gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugnir i'r tir
- **Safon Ansawdd Tai Cymru** - Safon Ansawdd Tai Cymru yw safon ansawdd genedlaethol ar gyfer cartrefi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Safon ei gyflwyno gyntaf yn 2002 a'r nod yw sicrhau fod anheddau o ansawdd a'u bod yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol ac i'r dyfodol

# Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch



## Blaenoriaeth Sector Rhentu Preifat

### Diffiniad

Cefnogi'r sector preifat i godi safonau o ran rheoli a chyflwr tai a hyrwyddo tenantiaeth gynaliadwy yn ein cymunedau

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ymgysylltu gyda thenantiaid y sector preifat, gan roi llais iddynt ac ymateb i'w hanghenion – erbyn Mawrth 2022
- Gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid ac asiantaethau'r sector preifat i ddeall eu hanghenion yn well – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu'r "cynnig landlordiaid" sy'n annog landlordiaid i weithio gyda'r Cyngor i godi safonau rheolaeth a chyflwr cartrefi lle bo angen – erbyn Mawrth 2022
- Gwella mynediad at eiddo sector preifat i'r rhai sy'n ddigartref, sydd mewn risg o fod yn ddigartref ac sydd angen tai – erbyn Mawrth 2022
- Mapio Tai Amfeddiannaeth ar draws Sir y Fflint i sicrhau bod isafswm cyfreithiol safonau tai yn cael eu bodloni ac i wella ansawdd bywyd preswylwyr – erbyn Mawrth 2022

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn cael eu cefnogi i gynnal cartrefi o ansawdd a thenantiaeth a reolir yn dda o fewn y sector preifat lleol
- Cynyddu cyfleoedd o fewn y sector rhentu preifat i aelwydydd incwm isel fyw yn llwyddiannus
- Lliniaru'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd trwy fynediad gwell i gartrefi a rentir yn breifat
- Codi safonau byw ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn tai amfeddiannaeth

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Rhentu Doeth Cymru
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Safonau Tai Cymru

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tai Amfeddiannaeth** - eiddo a rentir gan o leiaf 3 person nad ydynt o'r un 'aelwyd' (er enghraifft, teulu) ond yn rhannu cegin, ystafell ymolchi neu gyfleusterau toiled
- **Rhentu Doeth Cymru** – mae Rhentu Doeth Cymru yn cynorthwyo'r rhai sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn darparu cyngor ar rentu cartrefi diogel ac iach, prosesu cofrestriadau landlord a thrwyddedu grantiau i landlordiaid ac asiantaethau sy'n rheoli eiddo sector preifat yng Nghymru



# Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch



## Blaenoriaeth

Eiddo Gwag

### Diffiniad

Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy wella'r farchnad dai leol a gwella ein cymunedau lleol

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Dod a chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd trwy Fenthyciadau Tai Gwag – erbyn Mawrth 2022
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu gwasanaeth rheoli prosiectau ar gyfer landlordiaid anfasnachol i annog mwy i gofrestru ar gyfer y Cynllun Benthyciad Tai Gwag – erbyn Mawrth 2022
- Targedu cartrefi gwag 'problemus' yn ein cymunedau a defnyddio

- pwerau gorfodi lle bo'n briodol i wella ein cymunedau a chynyddu'r cyflenwad tai – erbyn Mawrth 2022
- Archwilio cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r tai ac adfywio ein trefi trwy ailddatblygu'r Stryd Fawr – erbyn Mawrth 2022

Cyswllt â'r Economi

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gan fod dros 400 ohonynt yn Sir y Fflint sy'n wag ar hyn o bryd
- Lleihau effaith eiddo gwag mewn cymdogaethau
- Bydd ailddatblygu'r stryd fawr yng nghanol trefi yn ystyried creu cartrefi allan o eiddo gwag
- Cefnogi perchnogion tai trwy gynnig gwasanaeth rheoli prosiectau i annog adnewyddu eiddo gwag

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Benthyciadau Tai Gwag** - Cynllun sy'n cynnig benthyciadau heb log i adnewyddu eiddo gwag a'u gwneud yn ddiogel i fyw ynddynt

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu adnewyddu eiddo gwag i mewn i gartref

# Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

Amcan Lles: Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hól-troed carbon eu hunain



## Blaenoriaeth Carbon Niwtral

### Diffiniad

Bod yn Gyngor di garbon net erbyn 2030 a chefnogi gweithredoedd datgarboneiddio ehangach ledled y Sir, gan wneud hyn yn ganolog i'r broses adfer ar ôl Covid-19

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Roi strwythur Llywodraethu (Bwrdd Rhaglen Garbon) yn ei le - erbyn Medi 2021
- Datblygu cynllun gweithredu di garbon net a'i gymeradwyo – erbyn Mawrth 2022
- Casglu gwybodaeth ar allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol y Cyngor i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Rhaglen Garbon - erbyn Mehefin 2021
- Adolygu'r polisi caffael i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan gyflenwyr – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu polisi ar gyfer defnydd ynni cynaliadwy a hirdymor mewn prosiectau cyfalaf lle gall hyn gael ei gyflawni – erbyn Rhagfyr 2021

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi garbon niwtral erbyn 2030, yn ogystal â lleihau newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol
- Sicrhau bod y cyfleoedd i ddefnyddio camau datgarboneiddio i hwyluso adferiad economaidd Covid 19
- Cefnogi'r cyhoedd, busnesau, diwydiant, cymunedau ac ati, i gymryd camau unigol a chymryd cyfrifoldeb ar gyfer newid hinsawdd a lliniaru

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Darparu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Datgarboneiddio** – Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac arddwysedd carbon
- **Di-Garbon Net** – Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugir i'r tir

# Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



## Blaenoriaeth Strategaeth Fflyd

### Diffiniad

Lleihau effaith amgylcheddol ein fflyd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Sicrhau y gwneir y mwyaf o holl siwrneiau busnes a'u bod yn cael eu cynllunio'n drylwyr – erbyn Mawrth 2022
- Lleihau milltiroedd busnes cerbydau sy'n eiddo i weithwyr trwy ddefnydd parhaus o gyfarfodydd ar-lein a lleihau siwrneiau diangen – erbyn Mawrth 2022
- Newid fflyd yr awdurdod i drydan a thanwydd amgen (hydrogen ac ati) – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Parhau i leihau ein hallyriadau carbon i fodloni targedau Llywodraeth Cymru a chwarae ein rhan i helpu mynd i'r afael â chanlyniadau newid hinsawdd

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2019 gyda dyheadau o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu lleihad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cerbyd Trydan** - cerbyd sy'n defnyddio batri neu gell danwydd i redeg cerbyd trwy ddefnyddio motor trydan
- **Cerbyd Hybrid** - Cerbyd sy'n defnyddio ffynonellau ynni trydan ac arferol e.e. petrol neu ddisel
- **Di-Garbon Net** - Mae allyriadau nwyon t gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugnir i'r tir

# Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

## Blaenoriaeth Amgylchedd Gwyrdd

### Diffiniad

Hyrwyddo, rheoli a diogelu ein mannau gwyrdd er mwyn cynnig amryfal fuddion i'r amgylchedd ac i'n trigolion a'n hymwelwyr

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Darparu cynnydd mewn brigdwf fel rhan o'r Cynllun Coetir a Choed Dinesig – erbyn Mawrth 2022
- Gwella'r amgylchedd naturiol trwy gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 Deddf yr Amgylchedd Cymru – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu strategaeth i wella bioamrywiaeth a dal a storio carbon ar yr ystâd amaethyddol – erbyn Rhagfyr 2021

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gadw cydbwysedd rhwng yr angen am ddatblygu cynaliadwy ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf Amgylchedd Cymru 2016
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Bioamrywiaeth** - yr amrywiaeth o fywyd a ddarganfyddir mewn lle
- **Ecosystem** - Cymuned neu grŵp o organebau byw sy'n byw mewn ac yn rhyngweithio gyda'i gilydd mewn amgylchedd penodol
- **Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** – Yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau

# Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



## Blaenoriaeth

Ynni Adnewyddadwy

### Diffiniad

Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd am ynni adnewyddadwy ledled Ystâd y Cyngor a chymunedau ehangach.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Asesu ymarferoldeb ynni adnewyddadwy ac asedau tir a chysylltu gydag uchelgeisiau carbon ehangach – erbyn Medi 2021
- Cytuno ar strategaeth fuddsoddi ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol – erbyn Mawrth 2022

Cyswllt â'r Economi

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Hwyluso ffinonellau newydd o incwm i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau'r Cyngor
- Gwneud y defnydd gorau a'r mwyaf economaidd o asedau tir y Cyngor
- Cefnogi cymunedau i gael a gweithredu systemau ynni adnewyddadwy lle bo'n briodol
- Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi garbon niwtral erbyn 2030, yn ogystal â lleihau newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol
- Sicrhau bod y cyfleoedd i ddefnyddio camau datgarboneiddio i hwyluso adferiad economaidd Covid 19

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Newidiadau arfaethedig gan Ofgem i ffioedd rhwydwaith trydan y DU a'r effaith ar gostau cysylltiad grid a defnydd parhaus o ffioedd system
- Darparu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Datgarboneiddio** - Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac arddwysedd carbon
- **Di-Garbon Net** – Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugrir i'r tir
- **Ynni Adnewyddadwy** – Ynni a gynhyrchir o ffynhonnell nad yw'n rhedeg allan e.e. yr haul, gwynt, dŵr ac ati.

# Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



## Blaenoriaeth

Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

## Diffiniad

Darparu cyfleoedd i gynyddu'r lefelau cerdded a beicio (teithio llesol) a chynnig dulliau cynaliadwy eraill o deithio

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Hybu'r defnydd o gludiant cyhoeddus trwy ddatblygu rhwydwaith fysiau craidd y Cyngor ymhellach – erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â'r Economi
- Hybu teithio llesol a datblygu rhwydwaith llwybr beiciau'r Cyngor ymhellach – erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol
- Hybu siwrneiau cludiant amfoddol a datblygu canolbwyntiau cludiant strategol – erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â'r Economi
- Datblygu rhwydwaith gwefru ceir trydan y Sir – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu rhwydwaith cerdded a beicio'r Sir – erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Alluogi pobl i gael gafael ar wasanaethau allweddol a chysylltu ar draws Sir y Fflint
- Lleihau tagfeydd ac oedi ar ein rhwydwaith priffyrdd
- Gwneud y mwyaf o fuddion cyllid trwy brosiectau blaengar
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio cerbydau trydan

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cyflwr y briffordd yn gwaethygu gyda'r cymorth cyfyngedig ar gael gan Lywodraeth Cymru
- Masnachfaint Rheilffyrdd Boderlands
- Darparu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, yn hybu dulliau amgen o deithio
- Strategaeth gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru
- Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Teithio Llesol** - dewisiadau cludiant cynaliadwy a chludiant heb fodur
- **Datgarboneiddio** - Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr ac arddwysedd carbon
- **Cludiant Amfoddol** - Y cyfuniad o wahanol ffyrdd o deithio (bws, trên, car, beicio, cerdded)
- **Masnachfaint Rheilffyrdd** - Proses o ddyfarnu trefniadau gweithredu ar leiniau unigol

# Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



## Blaenoriaeth Economi Gylchol

### Diffiniad

Cefnogi a hyrwyddo strategaeth Llywodraeth Cymru i greu economi gylchol gynaliadwy yn Sir y Fflint

#### Caiff llwyddiant ei fesur drwyh:

- Gyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu ac ymestyn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff ac Ailgylchu Standard Yard – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu ac ymestyn Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff a Chyfleuster Compostio Maes Glas – erbyn Rhagfyr 2021
- Cefnogi a hyrwyddo datblygiad y Caffi Aildddefnyddio ac Atgyweirio o fewn y Sir – erbyn Mehefin 2021 Cyswllt â Thlodi, Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol, Cyswllt ag Addysg a Sgiliau
- Hybu'r dewis i aildddefnyddio ac atgyweirio eitemau diangen mewn Canolfannau Ailgylchu Cartref trwy fynd i bartneriaeth gydag

elusennau lleol – erbyn Rhagfyr 2021

Cyswllt â Thlodi, Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol, Cyswllt ag Addysg a Sgiliau

- Gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ymgysylltu'n actif gyda grwpiau cymunedol trwy ddatblygu mentrau amgylcheddol ac ailgylchu – erbyn Mawrth 2022 Cyswllt â Thlodi, Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol, Cyswllt ag Addysg a Sgiliau
- Cefnogi busnesau lleol yn eu hymdrechion i leihau eu hôl-troed carbon a dod yn effeithlon o ran adnoddau – erbyn Mawrth 2022 Cyswllt â'r Economi
- Lleihau'r defnydd o blastig untro o fewn y Cyngor – erbyn Mawrth 2022

#### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Weithredu Economi Gylchol
- Bodloni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru
- Hybu atgyweirio ac aildddefnyddio lle bynnag bosibl
- Cyflwyno datrysiadau rheoli gwastraff cynaliadwy
- Hyrwyddo ffyrdd rhanbarthol o weithio
- Lleihau'r defnydd o becynnau untro

#### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Adolygiad o dargedau ailgylchu statudol
- Ailddosbarthu mathau o wastraff e.e. tynnu pren o'r cyfrifiad ailgylchu
- Pwysau a deddfwriaeth amgylcheddol
- Pwysau ariannol ar gymorth grant Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Mwy nag Ailgylchu

#### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Economi Gylchol** – System economaidd gyda'r nod o gael gwared â gwastraff a'r defnydd parhaus o adnoddau
- **Targedau Ailgylchu** – Gosodir y rhain gan Lywodraeth Cymru gyda'r posibilrwydd o gosb i Gynghorau am beidio â chyflawni'r targedau
- **Atgyweirio ac Aildddefnyddio** - Cadw eitemau mewn defnydd cyn hired â phosibl gan leihau'r ddibyniaeth ar warediad
- **Glasbrint Gwastraff** – Yn dynodi trefniadau casglu ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru

# Thema: Yr Economi

Amcan Lles: Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy



## Blaenoriaeth

Adfywio Canol Trefi

## Diffiniad

Adfywio ac ailddyfeisio ein canol trefi

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Fonitro iechyd a bywiogrwydd canol trefi i gefnogi rheolaeth effeithiol a phenderfyniadau buddsoddi busnes – erbyn Mawrth 2022
- Hyrwyddo busnesau twristiaeth, lletygarwch a chanol tref i helpu gyda'u hadferiad ar ôl Covid – erbyn Medi 2021
- Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol
- Annog a chefnogi buddsoddiad mewn eiddo canol tref er mwyn hwyluso defnydd mwy cynaliadwy – erbyn Mawrth 2022
- Cyswllt â Thai Fforddiadwy a Hygyrch
- Gwella'r amgylchedd mewn canol trefi - erbyn Mawrth 2022
- Cefnogi twf mentrau cymunedol mewn lleoliadau canol tref – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddiogelu hyfywedd economaidd ein Canol Trefi

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Dull Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Mentrau Cymunedol** - busnesau sy'n rhoi amcanion cymdeithasol yn ganolog i'w gweithrediad



# Thema: Yr Economi



## Blaenoriaeth

Busnes

### Diffiniad

Galluogi parhad busnes ac annog buddsoddiad priodol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ymgysylltu â busnesau bach a gwella pecynnau cymorth sydd ar gael ar eu cyfer – erbyn Mawrth 2022
- Cefnogi adferiad marchnadoedd stryd a dan do'r Sir ar ôl Covid – erbyn Medi 2021
- Cefnogi twf sector busnes bwyd a diod lleol a rhanbarthol trwy farchnata a phrosiectau cydweithredol – erbyn Medi 2021
- Cefnogi adferiad y sectorau twristiaeth a lletygarwch ac ailadeiladu hyder yn y diwydiant – erbyn Medi 2021
- Cynyddu graddfa ac effaith y sector busnes cymdeithasol – erbyn Mawrth 2022
- Cefnogi busnesau lleol yn eu hymdrechion i leihau eu hól-troed carbon a dod yn effeithlon o ran adnoddau – erbyn Mawrth 2022

Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Barhau i ddatblygu'r economi leol a rhanbarthol.
- Cydweithio i gyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer prif brosiectau seilwaith fydd yn cefnogi prosiectau twf economaidd
- Nid yw cefnogaeth ar gyfer busnesau yn Sir y Fflint yn ateb eu hanghenion ac mae'n methu annog buddsoddiad

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru
- Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru** - Dull rhanbarthol i ddatblygiad economaidd ar draws Cymru
- **Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru** – Cynllun ar gyfer adfer o niwed economaidd y pandemig coronafeirws a darparu cadernid economaidd

# Thema: Yr Economi



## Blaenoriaeth

Isadeiledd Cludiant a Digidol

### Diffiniad

Sicrhau bod y rhwydweithiau cludiant a digidol yn hwyluso ac yn cefnogi adferiad a thwf

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Cwblhau cysylltiad hol adeiladau cyhoeddus cymwys trwy'r Prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol – erbyn Mawrth 2022 **Cyswllt â Thlodi**
- Dechrau darparu cynlluniau lleol o fewn Bargaen Dwf Gogledd Cymru ar gyfer isadeiledd digidol – erbyn Rhagfyr 2021 **Cyswllt â Thlodi**
- Cysylltu cymunedau gwledig i ymhellach i wella isadeiledd digidol - erbyn Mawrth 2022 **Cyswllt â Thlodi**
- Datblygu a darparu gwelliannau isadeiledd cludiant fel rhan o raglen Metro Gogledd Cymru a Strategaeth Cludiant Integredig y Cyngor – erbyn Mawrth 2022 **Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**
- Sicrhau bod blaenoriaethau cludiant strategol Sir y Fflint yn cael eu cynrychioli yn y Cynllun Cludiant Rhanbarthol o'r Cydbwyllgor Corfforedig - erbyn Mawrth 2022 **Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Integreiddio pob dull o gludiant yn llwyddiannus a darparu ar gyfer gofynion pob un, gan gynnal a hyrwyddo gwasanaeth cludiant cyhoeddus cynaliadwy, fforddiadwy ac ecogyfeillgar yn greiddiol iddo ar yr un pryd, gyda chysylltiadau i ranbarth ehangach Sir y Fflint
- Darparu preswylwyr mewn ardal wledig y Sir gyda chysylltiadau gwerthfawr i wasanaethau cludiant ar hyd Rhwydwaith Craidd Sir y Fflint, lle nad oes gwasanaethau masnachol ar gael ar hyn o bryd, gan hwyluso mynediad i gyfleusterau iechyd, addysg a chyflogaeth
- Hyrwyddo cludiant amlfoddol gan leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur
- Cynnwys datrysiadau trafndiaeth leol yn y Cynnig Bargaen Dwf Economaidd rhanbarthol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Ffurio Cyd-Awdurdodau Cludiant
- Adolygiad Gwasanaeth Bws Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
- Cyflwyno dewisiadau teithio integredig a chynaliadwy

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Strategaeth Cludiant Integredig Sir y Fflint** - Y nod yw darparu datrysiadau cludiant cynaliadwy hirdymor trwy integreiddio holl ddulliau o gludiant yn llwyddiannus, sy'n cysylltu Sir y Fflint gyfan a'r ranbarth ehangach
- **Cyd-Awdurdodau Cludiant** – Sefydliad rhanbarthol a fyddai'n trefnu a rheoli gwasanaethau cludiant cyhoeddus lleol

# Thema: Yr Economi



## Blaenoriaeth

Targedau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

### Diffiniad

Cyflawni amcanion polisi CDLI ar gyfer twf, diogelu a gwella

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Sicrhau bod y CDLI yn cael ei fabwysiadu'n amserol unwaith y derbynnir Adroddiad yr Arolygydd – erbyn Rhagfyr 2021
- Monitro perfformiad cyffredinol y Cynllun trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru – erbyn Mawrth 2022
- Cynnal a diweddarau Llwybr Tai CDLI yn unol â'r penderfyniadau cynllunio a wneir - erbyn Mawrth 2022
- Gwneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r CDLI mabwysiedig – erbyn Mawrth 2022
- Cyfeirio at strategaeth dwf y CDLI yn y gwaith cynnar ar Gynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Fabwysiadu cynllun datblygu cadarn sy'n cynnwys fframwaith o bolisiâu a chynigion sy'n ceisio rheoleiddio a rheoli datblygiad a defnydd tir, ac i ddarparu sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau cynllunio unigol.

Materion Polisi Cenedlaethol:

- **Cynllun Datblygu Lleol** - Archwiliadau a phroffion cadernid

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Datblygu Lleol** - Cynllun sy'n canolbwyntio ar ddarparu datblygiad cynaliadwy yn y Sir am gyfnod o 15 mlynedd 2015 i 2030 a bydd yn cynnwys:
  - polisiâu a fydd yn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio
  - cynigion ar gyfer datblygu tai, manwerthu, cyflogaeth a defnydd tir eraill
  - polisiâu sy'n ceisio diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiladol

# Thema: Yr Economi



## Blaenoriaeth

Gwario arian er budd Sir y Fflint

### Definition

Tyfu bywiogrwydd economaidd lleol trwy ymrwmiadau gwerth cymdeithasol a strategaeth gaffael

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Annog a chefnogi comisiynwyr a chyflenwyr i gynhyrchu canlyniadau lles ychwanegol – erbyn Mawrth 2022
- Cynyddu gallu a hyder busnesau lleol i gyflenwi'r sector cyhoeddus – erbyn Mawrth 2022
- Adrodd ar ganlyniadau lles strategol ar draws y Cyngor – erbyn Medi 2021

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r buddion i breswylwyr Sir y Fflint trwy broses dan gontract gyda'r rhai sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor
- Cynghori busnesau lleol i ddeall y broses gaffael a chynyddu eu gallu i fynd i broses tendro

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Gwerth Cymdeithasol** - Darparu gwerth a buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer cymunedau, pobl a busnesau o fewn Sir y Fflint trwy gontractau mae'r cyngor yn eu caffael

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Thema: Yr Economi



## Blaenoriaeth

Lleihau Diweithdra

### Definition

Gweithio gyda'n partneriaid i helpu unigolion i gael gwaith.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Cydlynu dull amlasiantaeth i gefnogi busnesau i recriwtio pobl o grwpiau difreintiedig – erbyn Medi 2021  
Cyswllt â Thlodi
- Darparu rhaglenni mentora a chymorth ehangach i gynorthwyo pobl dan anfantais i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur - erbyn Mawrth 2022  
Cyswllt â Thlodi

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddarparu cymorth i gael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cymru'n Gweithio

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Grwpiau Difreintiedig** - Y rhai sy'n wynebu heriau i gael mynediad at y gweithlu neu gyfleoedd hyfforddi am amryw o resymau

# Thema: Lles Personol a Chymunedol

Amcan Lles: Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal a gallent

## Blaenoriaeth Byw'n Annibynnol

### Diffiniad

Helpu pobl i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib drwy gynnig y math priodol o gymorth iddyn nhw, pan fyddan nhw ei angen

### Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddarparu lleoliadau ychwanegol yng Nghartref Gofal Marleyfield House i gefnogi pobl hŷn – erbyn Mehefin 2021
- Datblygu ac ymestyn ein dull i Meicro Ofal gan gefnogi mwy o bobl yn eu cartrefi eu hunain - erbyn Mawrth 2022
- Cynyddu'r nifer o bobl sy'n gallu gwneud eu trefniadau gofal eu hunain trwy Daliadau Uniongyrchol – erbyn Mawrth 2022
- Sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer teuluoedd a phlant 0-7 oed wedi'u hintegreiddio yn well trwy'r prosiect 'Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar' – erbyn Mawrth 2022

### Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth dros y ffordd maent yn derbyn eu cymorth

### Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i hyrwyddo lles a grymuso pobl i reoli eu datrysiadau eu hunain
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniad i atal problemau parhaus megis anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd.

### Beth yw ystyr y canlynol:

- **Taliad Uniongyrc** - Trefniadau a wneir i alluogi unigolion i gael dewis a rheolaeth dros y ffordd y cânt eu cefnogi
- **Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar** – Gwasanaethau cyfun ac ymatebol y Blynyddoedd Cynnar, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Dylai plant fod wrth wraidd gwasanaethau integredig, ardderchog, sy'n rhoi eu hanghenion yn gyntaf, er gwaethaf strwythurau proffesiynol a threfniadol traddodiadol
- **Meicro Ofal** - Darparwyr gofal gyda nifer fechan o staff yn cynnig gwasanaeth personol, lleol

# Thema: Lles Personol a Chymunedol



## Blaenoriaeth Diogelu

### Diffiniad

Gweithredu a hyrwyddo'r gweithdrefnau diogelu newydd, er mwyn i'n gweithwyr ddeall sut y gallan nhw helpu diogelu pobl yn y gymuned

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddatblygu ac ail-lansio ein pecyn e-ddysgu corfforaethol i adlewyrchu'r gweithdrefnau diogelu newydd.  
Bydd hyn yn cynnwys ymestyn mynediad at y modiwl e-ddysgu diogelu i bartneriaid allweddol – erbyn Mawrth 2022
- Hyrwyddo'r 'ddyletswydd i adrodd' fel bod ein gweithwyr yn deall eu cyfrifoldeb i adrodd pryderon diogelu – erbyn Mawrth 2022
- Gweithredu'r 'cynnig gweithredol' o gymorth eiriolaeth ar gyfer pobl sy'n rhan o'r broses ddiogelu – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Hyrwyddo dealltwriaeth ar draws y Cyngor bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar holl weithwyr awdurdod lleol, aelodau etholedig a phartneriaid perthnasol i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau gwirioneddol neu amheus o gamdriniaeth neu niwed

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynnig Gweithredol** - Gofyniad i ddarparu gwybodaeth ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol
- **Dyletswydd i adrodd** – os oes gan bartner achos rhesymol i amau bod unigolyn mewn perygl, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol. Nid oes angen i'r camdriniaeth neu esgeulustod fod wedi digwydd er mwyn cymryd y penderfyniad i weithredu. Y nod yw diogelu pobl sydd ei angen ac i'w helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustod

# Thema: Lles Personol a Chymunedol



## Blaenoriaeth

Darpariaeth Uniongyrchol i Gefnogi Pobl yn Agosach at Adref

### Diffiniad

Y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu er mwyn i bobl gael gafael ar y cymorth y maen nhw ei angen yn eu cymuned leol.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Sefydlu Cartref Plant cofrestredig er mwyn helpu i rwystro'r angen am leoliadau preswyl tu allan i Sir y Fflint – erbyn Mawrth 2022
- Tyfu ein gwasanaethau gofal gartref mewnol er mwyn cefnogi mwy o bobl i fyw gartref - erbyn Mawrth 2022
- Tyfu ein gwasanaeth maethu mewnol er mwyn cefnogi mwy o blant sy'n derbyn gofal – erbyn Mawrth 2022
- Ymestyn Cartref Gofal Croes Atti ar gyfer pobl hŷn, gyda chanolbwynt ar ofal dementia; cwblhau'r cam cynllunio – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i ddarparu seibiant ar gyfer teuluoedd gyda phlant anabl – erbyn Medi 2021

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gynyddu ein darpariaeth leol er mwyn sicrhau y gall unigolion gael mynediad at wasanaethau yn agosach at adref

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i roi'r unigolyn a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, a rhoi llais, a rheolaeth iddynt gyrraedd y deilliannau sy'n eu cynorthwyo i gyflawni lles.

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Gofal Cartref** - Gwasanaethau gofal yn cael eu darparu i unigolion yn eu cartrefi ei hunain
- **Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014** – yn cydnabod y dylai canlyniadau unigolion fod yn ganolog i'r gofal maent ei angen a bod gwasanaethau yn cael eu datblygu i gefnogi'r canlyniadau hyn



# Thema: Lles Personol a Chymunedol



## Blaenoriaeth

Strategaeth Dementia Lleol

### Diffiniad

Parhau i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia yn Sir y Fflint.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Weithio gyda darparwyr cartrefi gofal cofrestredig a phartneriaid iechyd i ddatblygu mwy o leoliadau gofal nyrzio hirdymor ar gyfer pobl â dementia – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu strategaeth Dementia Sir y Fflint sy'n gosod gweledigaeth a rennir a chymau gweithredu ar gyfer y cam nesaf o ddatblygu cymorth dementia da ar gyfer unigolion, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddatblygu'r Strategaeth Dementia Lleol
- Cefnogi pobl sy'n byw â dementia

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cynllun Gweithredu Dementia Cymru 2018 i 2022

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Strategaeth Dementia Lleol** - Cynllun i ddarparu polisi cenedlaethol yn lleol i gefnogi pobl sy'n byw â dementia

# Thema: Lles Personol a Chymunedol



## Blaenoriaeth

Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda Chysylltiadau Da

## Diffiniad

Cymunedau cadarn lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddiogelu preswylwyr a'n hamgylchedd rhag llygredd a pheryglon iechyd a diogelwch cyhoeddus eraill trwy gyflawni'r Safon Gwasanaethau Stryd – erbyn Mawrth 2022
- Cadw ein cymunedau lleol yn lân ac yn ddiogel trwy ymgysylltiad, addysg a gorfodi amgylcheddol – erbyn Mawrth 2022
- **Cyswllt â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**
- Gweithio gyda chymunedau lleol i hyrwyddo gweledigaeth hirdymor a chynllun cyflawni ar gyfer defnyddio'r rhaglen Grant Cyllido Hyblyg er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl – erbyn Hydref 2021

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gynnal rhwydwaith ffyrdd diogel a hygrych
- Darparu parcio o ansawdd ar gyfer canol trefi a sicrhau bod argaeledd drwy ddarpariaeth arhosiad byr / hir priodol
- Diogelu'r amgylchedd rhag gweithgarwch gwaredu gwastraff
- anghyfreithiol
- Cynnal safon o ddarpariaeth gwasanaeth yn y Portffolio Strydwedd a Chludiant
- Diogelu Iechyd y Cyhoedd ar gyfer trigolion o fewn Sir y Fflint

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Rhaglen Cyllido Hyblyg Cymru
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniad i atal problemau parhaus megis anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd.
- Newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu awdurdodau lleol i gynnal rhagor o weithgarwch gorfodi
- Pwysau ariannol a chymorth grant Llywodraeth Cymru
- Darparu strategaeth genedlaethol a gwelliant i ansawdd yr amgylchedd lleol

## Beth yw ystyr y canlynol:

- **Gwasanaeth gorfodi** darparu tîm gorfodi integredig i fynd i'r afael â thorri rheolau parcio a throseddau amgylcheddol fel tipio anghyfreithlon, gollwng ysbwriel a baw c n
- **Rhaglen Cyllido Hyblyg** – Y dull a ddatblygwyd gan LIC sy'n galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu ffyrdd mwy strategol o ddarparu gwasanaethau cynnal ac atal ac ymyrraeth gynnar
- **Ansawdd yr Amgylchedd Lleol** – Yn cynnwys agweddau megis sbwriel, graffiti, cerbydau wedi eu gadael a gosod posterï'n anghyfreithlon Mae'r rhain yn cael effaith ar ansawdd bywyd, ac os y gadewir, gallent arwain at drosedd mwy difrifol
- **Darpariaeth parcio** – gofodau parcio hygyrch a digon ar gael
- **Safonau Strydwedd** – Set o Safonau yn rhoi manylion safonau perfformiad isafswm
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau sy'n cefnogi cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, ac yn benodol i fynd i'r afael â materion o ran tlodi, anghydraddoldebau iechyd a mentrau i atal newid hinsawdd



# Thema: Addysg a Sgiliau

Amcan Lles: Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu



## Blaenoriaeth

Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol

## Diffiniad

Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol i gefnogi cyflawniad addysgol mewn ysgolion a chymunedau

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gynnal cefnogaeth ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig ar gyfer disgyblion o 3-16 sy'n eu paratoi yn well ar gyfer eu bywydau a chyflogaeth yn y dyfodol – erbyn Mawrth 2022
- Parhau i gefnogi codi safonau ymhob cyfnod allweddol i alluogi dilyniant dysgwyr – erbyn Mawrth 2022
- Parhau i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau er mwyn cynyddu cyflawniad addysgol – erbyn Mawrth 2022
- Parhau i ehangu'r cynnig o gyfleoedd addysgol amgen i gefnogi ymgysylltiad dysgwr – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni eu potensial
- Cynyddu cadernid plant a phobl ifanc mewn ysgolion a'u cymunedau i aros yn ddiogel ac iach
- Cefnogi dysgwyr o 3 i 18 oed i anelu at lefelau uchel o gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol.
- Cyflawni dyletswyddau statudol o dan newid polisi addysg cenedlaethol i gwricwlwm cenedlaethol diwygiedig
- Cefnogi dysgwyr sy'n rhan, neu mewn perygl o fynd i'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid, i gael mynediad at, a chynyddu presenoldeb mewn addysg, er mwyn cyrraedd eu potensial

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Diwygio'r Cwricwlwm

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cyfleoedd Addysgol Amgen** - darpariaeth addysgol a ddarperir gan ystod o ddarparwyr allanol yn hytrach na'r ysgol, e.e. cyrsiau galwedigaethol a ddarperir trwy golegau addysg bellach
- **Diwygio'r cwricwlwm** – Cwricwlwm newydd i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir wedi eu hariannu (lleoliadau gofal dydd sesiynol fel grwpiau chwarae a chylchoedd meithrin neu feithrinfeydd dydd preifat a gofrestrwyd i ddarparu addysg) yng Nghymru o fis Medi 2022.
- **Cynllun Cyfiawnder Ieuencid Lleol** – yn ofynnol o dan y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998

# Thema: Addysg a Sgiliau



## Blaenoriaeth Cyfleoedd Dysgu Digidol

### Diffiniad

Cefnogi ymgysylltiad a chyflawniad addysgol drwy wneud defnydd rhagweithiol o gyfryngau digidol hygyrch

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gefnogi ysgolion a'r gwasanaethau addysg ehangach i gynyddu eu cynnig digidol ar gyfer plant a phobl ifanc – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu cynllun cyflawni newydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Integredig gyda mwy o ganolbwynt ar ymgysylltiad digidol i gynyddu cyfranogiad – erbyn Mawrth 2022
- Cynyddu ystod o ddeunyddiau digidol ar wefan Archif Gogledd Ddwyrain Cymru a gwasanaethau digidol eraill i annog mwy o gyfranogiad gyda'r gwasanaeth – erbyn Mawrth 2022
- Parhau i gefnogi dysgwyr sydd 'dan anfantais ddigidol' i gael mynediad at ddyfeisiau TG i hyrwyddo ecwiti ac ymgysylltiad - erbyn Mawrth 2022

Cyswllt â Thlodi

- Cynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer cyfleoedd dysgu digidol a gefnogir gan Aura – erbyn Mawrth 2022
- Darparu hyfforddiant cymunedol ar gyfer llwyfannau dysgu ar-lein mewn partneriaeth ag Aura a Dysgu Oedolion yn y Gymuned – erbyn Mawrth 2022
- Darparu gweithdai celf digidol yn seiliedig ar gasgliadau yn Llyfrgell Gladstone, mewn partneriaeth a ariennir gan y Cyngor Celfyddydau gyda Llyfrgell Gladstone ac artistiaid gweledol – erbyn Mawrth 2022

Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gefnogi ysgolion a dysgwyr i sefydlu Fframwaith Cymhwysedd Digidol fel rhan o'r paratodau ar gyfer gweithredu cwricwlwm newydd Cymru yn 2022
- Sefydlu gofynion Fframwaith Digidol 2030 o fewn y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar draws y sir

National Policy Issues:

- Strategaeth Ddigidol Cymru
- Cwricwlwm Cymru 2022
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ysgolion
- Fframwaith Digidol 2030 ar gyfer dysgu ôl 16

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** - Yn nodi sut mae cymhwysedd digidol yn cael ei integreiddio ar draws y cwricwlwm, gan roi'r un pwyslais ar ddigidol a llythrennedd a rhifedd
- **Fframwaith Digidol 2030** - yn nodi'r cymorth digidol sydd ei angen ar gyfer siwrnai gyflawn y dysgwr, gan gydnabod bod elfennau cyfun arweinyddiaeth, prosesau busnes, diogelwch ac isadeiledd angen bod yn ei le ar gyfer darpariaeth ddigidol effeithiol

# Thema: Addysg a Sgiliau



## Blaenoriaeth Amgylcheddau Dysgu

### Diffiniad

Creu amgylcheddau dysgu uchelgeisiol a hyblyg.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddarparu amgylcheddau dysgu o safon uchel trwy raglen buddsoddi cyfalaf a ffrydiau cyllido grant Llywodraeth Cymru – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu cais cyllido Archif Gogledd Ddwyrain Cymru trwy Gam 1 Gwobr Treftadaeth Gorwelion Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol - erbyn Mawrth 2022
- Cynyddu'r defnydd o ofodau cymunedol wrth ail-ddatblygu Canolfan Lles a Llyfrgell y Fflint – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Barhau i ddarparu strategaeth hirdymor ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn adeiladau ysgol ac mewn darpariaeth ar gyfer dysgwyr diamddiffyn i wella ansawdd adeiladau ysgol, wrth hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau ôl-groniad cynnal a chadw sydd wedi'i nodi
- Darparu Gwasanaeth Archif gwydn, cost-effeithiol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Colegau ac Ysgolion yr 21ain ganrif

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Ysgolion yr 21ain ganrif** - mae'n fwy na rhaglen adeiladu. Mae'n fuddsoddiad strategol tymor hir yn ein hystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau.

# Thema: Addysg a Sgiliau



## Blaenoriaeth

Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu

### Diffiniad

Cefnogi ein cymunedau sy'n dysgu i ymgysylltu a chyflawni drwy waith partneriaeth helaeth gydag arferion diogelu cyffredin wrth ei wraidd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gwblhau trefniadau dan gontract ar gyfer Archif Gogledd Ddwyrain Cymru rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy a chadarn – erbyn Mawrth 2022
- Sefydlu partneriaeth isranbarthol ar gyfer darparu gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogwyr a darparwyr - erbyn Mawrth 2022

#### Cyswllt â Lles Personol a Chymunedol

- Datblygu Cynllun Cyflawni ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned gyda phartneriaid newydd i gynyddu ymgysylltiad a gwella sgiliau o fewn cymunedau lleol – erbyn Mawrth 2022
- Gweithio gyda Phartneriaid Rhwydwaith Dysgu er Adferiad a Lles a Dysgu Oedolion yn y Gymuned i rannu arferion gorau a chynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu o fewn y gymuned gyda chyfleoedd ar gael yn holl lyfrgelloedd Aura - erbyn Mawrth 2022
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Agored Cymru i gefnogi a chyfeirio defnyddwyr llyfrgell at gyrsiau Dysgu Agored a llwybrau dysgu dilynol gyda Chefnogwyr Dysgu Agored ymhob llyfrgell – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod y cynnydd mewn cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu cyrsiau sy'n helpu dysgwyr sy'n oedolion i ddatblygu sgiliau a gwella eu hiechyd a'u lles
- Ymwreiddio'r Partneriaeth Dysgu Oedolion Newydd Sefydledig rhwng Sir y Fflint a Wrecsam

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru
- Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlogi a'i raglen lles a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), yn arbennig o ran bodloni anghenion dysgwyr hŷn

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Dysgu Oedolion** - Darpariaeth gan awdurdodau lleol ac a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dysgu cymunedol ar gyfer oedolion dros 19 oed yng Nghymru

# Thema: Addysg a Sgiliau



## Blaenoriaeth

Darpariaeth Addysgol Arbenigol

### Diffiniad

Ehangu gallu lleol i helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Parhau i sefydlu'r cynllun gweithredu i ddarparu dull statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu o 0-25 oed – erbyn Mawrth 2022
- Cwblhau prosiect adeiladu ar gyfer Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i drawsnewid darpariaeth y gwasanaeth arbenigol hwn – erbyn Mawrth 2022
- Cynyddu capasiti staff Plas Derwen i ddarparu mwy o waith estyn allan i rannu eu harbenigedd ar draws gweithlu'r ysgol – erbyn Mawrth 2022
- Datblygu strategaeth hirdymor er mwyn sicrhau capasiti digonol a phriodol i gefnogi dysgwyr gydag ystod o anghenion addysgol ychwanegol sy'n cynyddu arbenigedd lleol ac adnoddau ariannol – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddatblygu ein darpariaeth arbenigol i fodloni anghenion dysgwyr mor effeithiol ac effeithlon â phosibl
- Cyflawni dyletswyddau statudol o dan newid deddfwriaeth genedlaethol i gefnogi plant/pobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Uned Cyfeirio Disgyblion** - Darpariaeth addysgol amgen sydd wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu addysg ar gyfer plant nad allent fynychu'r ysgol ac na fyddai'n derbyn addysg addas fel arall



# Thema: Addysg a Sgiliau



## Blaenoriaeth

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg

## Diffiniad

Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gynyddu capasiti a'r rhai sy'n cofrestru ar gyfer addysg Gymraeg i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru – erbyn Mawrth 2022
- Gwella sgiliau Cymraeg staff mewn ysgolion er mwyn cefnogi dysgwyr a darpariaeth y cwricwlwm yn fwy effeithiol – erbyn Mawrth 2022
- Parhau i wella safonau Cymraeg disgyblion ymhob ysgol er mwyn annog mwy o ddwyieithrwydd – erbyn Mawrth 2022
- Ymestyn ystod o wasanaethau ieuencid a ellir eu darparu'n ddwyieithog er mwyn annog pobl ifanc i gadw a defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth ddatblygu i fod yn oedolion – erbyn Mawrth 2022
- Cynnal a chadw Dangosydd Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau Cymraeg mewn llyfrgelloedd Aura – erbyn Mawrth 2022

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Weithio gyda rheoliadau newydd Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (2019)
- Datblygu a dechrau gweithredu ein Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg nesaf, a gaiff eu darparu dros y 10 mlynedd nesaf (2022 – 2032)

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cymraeg 2050: ein strategaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Darpariaethau ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn yr Ysgol
- Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') a'r rheoliadau a wneir o dan y ddeddf

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cymraeg 2050** - Mae miliwn o siaradwyr Cymraeg yn canolbwyntio ar gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o Gymraeg a chreu amodau ffafriol – isadeiledd a chyd-destun
- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** - Sut ydym ni fel awdurdod lleol yn cynnig cyflawni ein swyddogaethau addysgol i:
  - o i. Wella cynllunio'r ddarpariaeth addysg trwy'r Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn Sir y Fflint
  - o ii. Gwella safonau addysg ac addysgu cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint



# Datganiad o Gyfrifoldeb

Mae gwybodaeth am y gwaith adolygu parhaus ynghylch blaenoriaethau'r Cyngor a'r cynllun hwn ar gael ar ein gwefan lle ceir ffurflenni adborth ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ein partneriaid, ein gweithlu a busnesau. Hoffem gael eich barn am ein blaenoriaethau a'r rheini ar gyfer y dyfodol. Byddem yn gwerthfawrogi eich adborth ac rydym yn gobeithio y byddwch yn cymryd yr amser i roi eich barn.

Yn y cyfamser .... os oes gennych unrhyw sylwadau cychwynnol, cysylltwch â'r:

**Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol::**

Tel: 01352 702744

E-bost: [busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk](mailto:busnescorfforaethol@siryfflint.gov.uk)